

## BYDDWCH YN MEDI'R HYN 'RYDYCH YN EI HAU

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Dangoswch mewn ffordd ymarferol yr hyn mae 'hau i'r cnawd' yn ei olygu yn ogystal â sut i 'hau i'r Ysbryd.' Gwnewch yn amlwg fod y canlyniad y naill a'r llall yn anorfod: Fe fedwn yr hyn a heuwn, er efallai na fydd yn ymddangos felly ar y cychwyn. Anogwch bawb i 'hau i'r Ysbryd,' gyda golwg ar fywyd tragwyddol (Gal 6:8)

### **'FYDDWCH CHI'N HAPUS WRTH FEDI'R HYN 'RYDYCH CHI'N EI HAU?** (5 mun.)

Mae popeth byw ar y ddaear yn atgynhyrchu yn ôl ei rywogaeth (Gen 1:11, 12, 24, 25)

Onid ydych chi wedi gweld hyn ym myd anifeiliaid a phlanhigion?

Mae ffermwyr yn dibynnu ar hyn; wrth hau had gwenith, ni ddisgwylir cnwd o reis

Mae hyn yn wir hefyd am fywyd dynol (Darllen Galatiaid 6:7, 8; *g76 4/8 3-4*)

Mae'n siwr i chi weld effeithiau arferion da ac arferion drwg ar fywydau pobl (Preg 11:9; *w86 8/1 16-17*)

'Ydych chi'n llwyr gredu y byddwch yn medi yr hyn 'rydych yn ei hau 'nawr? 'Ydi'r gred hon yn cael ei hadlewyrchu yn eich bywyd teuluol, eich adloniant, eich agwedd at astudio a'r gwasanaeth maes, eich ymddygiad yn y gynulleidfa?

Gall y canlyniad fod yn "fywyd tragwyddol" gan Dduw neu'n "llygredigaeth" (*w88 6/15 19-20*)

### **AMGYLCHIADAU LLYTHYR PAUL AT Y GALATIAID** (6 mun.)

Ar gyfer pobl go iawn tebyg i ni 'roedd y llythyr

'Roedd y Galatiaid yn frodyr i ni, a chanddyn' nhw deuluoedd, swyddi, problemau, anghenion, yn union fel ni; gall cyngor iddyn' nhw ein helpu ni

Ymwelodd Paul â nhw a helpu i sefydlu cynulleidfaoedd yn y dalaith, felly 'roedd ganddo gariad diffuant atyn' nhw (*it-1 880-2; si 217-20; Actau penodau 13, 14, 16*)

Beth ysgogodd Paul i ysgrifennu ei lythyr? (*it-1 882*)

Clywodd fod Iddeweiddwyr yn achosi problemau

Tueddai'r Galatiaid brodorol i fod yn anwadal ac ansicr, ac 'roedd safonau moesol y werin bobl yn isel

'Roedd pwrpas deublyg i lythyr Paul: annog y Galatiaid i ymryddhau oddi wrth gaethiwed i'r Gyfraith a'u hatgoffa nhw rhag mynd i'r eithaf arall ac ymryddhau oddi wrth bob ataliaeth (*w82 11/15 28-30*)

Dangosodd ei gyngor mai 'hau i'r cnawd' fyddai'r naill a'r llall o'r ddau eithaf, yn arwain i 'lygredigaeth o'r cnawd'

Yn hytrach fe'u hanogodd nhw i 'hau i'r Ysbryd' oherwydd "beth bynnag y mae dyn yn ei hau, hynny hefyd y bydd yn ei fed!"

Er ein bod yn byw mewn cyfnod gwahanol, 'ydym ni'n gweld gwerth cyngor Paul i ni?

### **DEFNYDDIO, OND PEIDIO Â CHAMDEFNYDDIO, RHYDDID CRISTIONOGOL** (15 mun.)

(Wrth ddatblygu gweddill yr anerchiad, addaswch ar gyfer anghenion y gynulleidfa. Cynhwyswch enghreifftiau ymarferol i wneud i bwyntiau fyw. Am ragor o wybodaeth, gweler *w69 350-1; w68 521-32*)

Enwaedu a'r Gyfraith ddim yn broblem 'nawr, ond beth am "gyfreithiau" dynol?

Gall rhai yn y gynulleidfa dueddu i fod yn eithafol yn eu syniadau at wisg a thrwsiad, deiet, triniaeth feddygol, ymddygiad at berthnasau, cerddoriaeth, adloniant (*w82 6/15 24; w82 7/15 19-20*)

Gallant bwysu ar eraill i'w canlyn; ymddwyn fel petai unrhyw un â golygwedd wahanol yn anaeddfed

Rhaid gwylio rhag y duedd hon, gan mai 'hau i'r cnawd' ydyw

'Hau i'r cnawd' hefyd yw camddefnyddio'n rhyddid yng Nghrist (Gal 5:13; *it-1 872; it-2 1014; g79 6/8 27-8*)

Fel y Galatiaid, fe'n hamgylchynir ni gan bobl sydd â moesau llac ac ymddygiad diymatal

Mae'r byd yn hoffi difyrrwch sy'n hybu trais, diffyg ymatal, fflyrtio, agwedd ddifater at briodas, goryfed, iaith ac ymddygiad difriol, ac yn y blaen

'Fyddwch chi'n caniatáu i syniadau digyfraith, annibynnol, hunanol y byd eich heintio chi? (*w84 11/15 28-31; w83 1/15 7-10; w83 10/15 10-15*)

'Ydych chi erioed wedi meddwl, "'Does 'na ddim 'rheolau,' felly mi gaf wneud yr hyn 'rwyf i am ei wneud'?"

Hawdd magu syniadau fel hyn at adloniant, cerddoriaeth, ymddygiad, gwisg a thrwsiad

'Ydych chi'n cymryd eich adduned priodas o ddirif?

Mae gofyn i gariad reoli'n meddwl a'n hymddygiad (Gal 5:14, 15, 26)

Mae anwybyddu cyfraith cariad yn ein harwain i drin eraill ar sail *cnawdol*, gyda chasineb a chynnen yn dilyn

'Fyddwch chi'n dal dig, yn bwydo'ch dicter? (*w69 351; w68 530*)

'Ydych chi'n teimlo eich bod heb gyfraith, neu a ydych chi'n cael eich rheoli gan gyfraith cariad? (Iago 2:8)

I osgoi peryglon camddefnyddio rhyddid, heuwch i'r ysbryd

Mae ffydd, cariad, a'r ysbryd sanctaidd yn gymhorthion i hau i'r ysbryd

Mae angen ffydd arnom fydd yn cyffwrdd ein calon ac yn gwneud gwahaniaeth i'n bywyd bob dydd ni (Gal 5:6)

Mae angen parhau i geisio'r ysbryd, gan ymateb i'w ffyrdd a'r hyn mae'n ei gymell

Os ydych yn ansicr, gofynnwch: 'Ai dyma fyddai'r ysbryd yn fy nghymell i'w wneud?'

Gallai fod yn wahanol iawn i'n dewis ni fel dyn cnawdol

Daw bendithion wrth hau i'r ysbryd a iawn ddefnyddio rhyddid Cristionogol

Nid yw "gweithredoedd y cnawd" yn dod â hapusrwydd parhaol ac ni cheir chymeradwyaeth Duw (Darllen Galatiaid 5:19-21)

Gyda "ffrwyth yr Ysbryd" yn llenwi'n bywydau, bydd ein holl ffordd o fyw yn wahanol (Darllen Galatiaid 5:22-25)

Os oes angen addasu, dylem ymdrechu i'w sicrhau

Mater rhyngoch chi a Duw ydyw, ond mae gofyn i bob un ohonom fod yn onest â ni'n hunain, gan sylweddoli y bydd cyflawni ar Galatiaid 6:7, 8

### **MEDI I'R YSBRYD DRWY WEITHREDU CARIAD AT ERAILL (12 mun.)**

Dylai cariad fod yn rym real yn ein bywyd, nid dim ond rhyw syniad haniaethol, pleserus

'Rydym yn dangos cariad trwy ymateb i anghenion cyd-Gristionogion

Dyma gyfrifoldeb y rhai sy'n ysbrydol aeddfed (Gal 6:1; *it-2* 400; *w92* 11/15 26-9)

'Dyw hyn ddim yn golygu bod yn fusneslyd; eto rhaid osgoi'r agwedd 'peidio ymyrryd'

Efallai y bydd angen gwroldeb wedi'i ysgogi gan gariad er mwyn mynd at un arall

Efallai fod gan berson 'faich' y medrwn ni ei helpu i'w gario (Gal 6:2; *it-1* 376; *w76* 401)

Wrth gynorthwyo eraill, cofiwch am eich gwendidau eich hun a pheidio â theimlo'n rhagorach (Gal 6:3, 4; *it-1* 376-7; *w76* 401)

Rhaid cario'n pwn cyfrifoldeb ysbrydol o flaen Duw (Gal 6:5)

Dangosir cariad drwy fod yn hael (Gal 6:6; *it-2* 1073)

I gymhwysu hyn disgwylir i'r disgyblion fod yn fodlon rhannu'n faterol â'r un sy'n eu dysgu, os oes angen arno Helpodd rhai cynulleidfaoedd i ofalu am anghenion materol Paul (Phil 4:15, 16)

'Oes gennym ni gariad tebyg at y rhai sy'n ofalu am anghenion ysbrydol eraill?

Er ein bod yn dymuno gwneud daioni i'n brodyr, dylem hefyd fod yn gwneud daioni i eraill (Gal 6:9, 10)

'Fedrem ni dueddu i roi pleser personol o flaen gwasanaeth maes?

O gymharu gweithgareddau ein gorffennol â rhai'r presennol, 'fyddem ni'n casglu ein bod yn blino, neu a ydym yn gwneud popeth a allwn i achub eraill? (1Tim 4:16)

### **BYDDWCH YN HYDERUS Y MEDRWN FEDI BYWYD TRAGWYDDOL (7 mun.)**

Rhaid peidio â gadael i erlid, neu fygwth erlid, ein rhwystro

Effeithiodd poeni am erlid ar yr Iddeweiddwyr yn Galatia (Gal 6:12; *it-1* 882)

'Roeddent yn annog enwaedu fel na fyddai Iddewon eraill yn eu herlid

Rhaid i ni fod yn effro i'r posibilrwydd y medrem ninnau ddatblygu agwedd debyg

Mewn llawer ffordd yn y pethau bach mi fedrem ni ddechrau poeni mwy am gael ein derbyn gan y byd

Gofynnwch: "Ydw i'n addasu fy ffyrdd er mwyn ennill eraill neu oherwydd fy mod i o ddifri' eisiau cael fy nghymeradwyo a'm derbyn gan y byd?" (1Cor 9:19-22)

Efallai fod gan Paul greithiau, tebyg i seriadau caethwas, yn profi ei barodrwydd i dderbyn erlid er mwyn Crist (Gal 6:17; *it-1* 363; *w90* 11/15 23)

'Fyddem ni'n barod i gael ein nodi fel hyn a derbyn erledigaeth?

Byddwch yn hyderus y gwobrwyir ffyddlondeb (Gal 6:7-9)

Sut yn union ydym yn hau? Ai ein cnawd neu ein hysbryd yw'n blaenoriaeth?

'Ydych chi'n hyderus fod eich bywyd wedi'i ganoli ar bethau ysbrydol?

Yn wahanol i'r Galatiaid, mae ein gwobr ni (medi) yn y dyfodol agos iawn

Trist fyddai i ddyn ganlyn y gwirionedd am gyfnod hir ac yna ddiffygio (Gal 6:9)

'Rydym 'nawr ar drothwy byd newydd; 'dyw hi ddim yr adeg i laesu dwylo

'Nawr yw'r amser inni ein holi'n hunain eto ynglŷn â'n meddyliau a'n ffyrdd a gweld a fedrwn hau i'r ysbryd yn rhagorach

Cyn bo hir byddwn yn medru ymhyfrydu yng nghanlyniad hynny, gan fedi bywyd tragwyddol

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)